Cofnodion Wedi'i Gadarnhau
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Iechyd Cyhoeddus Cymru
a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2022, 10:00
drwy Microsoft Teams

WEDI'I GADARNHAU

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Hefyd yn bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu y Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Swyddog Gweithredol *(gadawodd am 12:00pm)*
Angela Cook	(AC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Sian Davies	(SD)	Archwilio Cymru *(ar gyfer eitem 4.1)*
Rebecca Fogarty	(RF)	Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithredu (*ar gyfer eitem 3*)
Wayne Jepson	(WP)	Arweinydd y Rhaglen / Cynghorydd Gwella
Angela Jones	(AJ)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant
Huw Jones	(HJ)	Cynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Junaid Iqbal	(JI)	Arweinydd Profiad Defnyddwyr *(ar gyfer eitem 3)*
Simon Kimber	(SK)	Cynrychiolydd CIVICA *(ar gyfer eitem 3)*
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

Kate Mackenzie	(KM)	Pennaeth Dadansoddeg Gwella ar ran John Boulton
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd yr Undeb Llafur *(gadawodd am 12:00pm)*
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau, Iechyd a Diogelwch / Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (*ar gyfer eitem 4.10*)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Jessica Taylor	(JT)	Swyddog Cymorth Gwella Ansawdd ac Archwilio Clinigol *(ar gyfer eitemau 5.2.2, 5.2.3 a 5.3)*
Francesca Thomas	(FT)	Pennaeth Gweithio i Wella
Sarah Thomas	(ST)	Cynrychiolydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd yr Undeb Llafur
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Christopher Thomas	(CT)	Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

QSIC 1/2022.07.20 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r cofnodion gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.

QSIC 2/2022.07.20 Datgan Buddiannau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datgan Buddiannau.

QSIC 3/2022.07.20 Profiad Defnyddwyr

Cyflwynodd RBW 'Ein Dull Ymgysylltu - diweddariad ar y cynnydd ym mlwyddyn 2', gan nodi bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Tîm Gweithredol, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i awydd y Sefydliad i ymwreiddio adborth a phrofiad defnyddwyr.

WEDI'I GADARNHAU

Darparodd RF gyflwyniad ar y meysydd allweddol, gan amlygu: y dull gweithredu cyffredinol ar gyfer ymgysylltiad effeithiol a theg â'r cyhoedd; ei aliniad strategol; y gweithgareddau ymgysylltu sydd ar y gweill ar hyn o bryd; y cynnydd a wnaed yn erbyn y sbardunau a'r pwyntiau trafod allweddol o sesiwn y Tîm Gweithredol Busnes Strategol. Aeth RF ymlaen i roi trosolwg o'r gwaith mewn perthynas â'r Llysgenhadon Ifanc a'r dull arfaethedig ar gyfer eu cyfranogiad yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bwrdd.

Darparodd SK drosolwg o'r system CIVICA, sy'n llwyfan ar gyfer mewnwelediadau i brofiad ac ymgysylltu.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Awydd y Sefydliad i ymgysylltu, ac a oedd cynllun i sicrhau nad oedd pobl wedi'u llethu gan ddata. Nododd RBW fod y tîm wedi ymgysylltu â sefydliadau allanol eraill gan ddefnyddio'r system i ddysgu ganddynt, ac roedd yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i ddeall a blaenoriaethu pwy yr ydym yn ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd a phwy yr hoffem ymgysylltu â nhw;
- Y fethodoleg a dosbarthiad arolygon aml-lwyfan drwy godau QR y cyfryngau cymdeithasol, ffonau symudol a systemau papur;
- Nododd SG ei bod yn edrych ymlaen at gyflwyniadau yn y dyfodol sy'n ystyried data ansoddol a meintiol, a sut y gellid eu defnyddio ar draws Cyfarwyddiaethau;
- Y ffaith bod y system yn cyflwyno cyfle i brofi dealltwriaeth sefydliadol y bobl rydym yn eu gwasanaethu, a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol i'r Cyfarwyddiaethau Iechyd a Llesiant a Diogelu Iechyd a Sgrinio. Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd cael yr hierarchaeth gywir ar waith drwy aliniad â Datix, a'r gallu i dynnu sylw at y defnydd o'r system o fewn y Sefydliad a'r tu allan iddo.
- Y ffaith bod gan y Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ddiddordeb mewn cyfleoedd yn y dyfodol i ddefnyddio'r system i geisio barn y staff, h.y. drwy'r defnydd o arolwg pwls y strategaeth hirdymor. Nodwyd y byddai'r Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil yn ystyried y defnydd o arolygon i geisio lliniaru'r diflastod mewn perthynas ag arolygon.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd KE i'r tîm am y cyflwyniad llawn gwybodaeth ac edrychodd ymlaen at ddiweddariadau yn y dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y Cynllun Gweithredu Blwyddyn 2 ar gyfer *'Ein Dull Ymgysylltu'* yn gwneud cynnydd a bod system profiad CIVICA wedi'i gweithredu gyda gwaith parhaus i ymwreiddio ei gallu ar draws y sefydliad.

QSIC 4/2022.07.20	**Eitemau er Sicrwydd**
QSIC 4.1/2022.07.20	**Trefniadau Llywodraethu Ansawdd (Archwilio Cymru)**

WEDI'I GADARNHAU

Cyflwynodd VW ganfyddiadau allweddol yr arolwg o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, a roddodd gyd-destun a chefndir i'r argymhellion a adroddwyd. Casgliad cyffredinol yr archwiliad oedd bod yr Ymddiriedaeth wedi ymrwymo i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd. Roedd y trefniadau presennol yn effeithiol, ond gellid eu cydlynu'n well i sicrhau cysondeb y dull gweithredu ac i rannu'r hyn a ddysgwyd. Daeth VW â'r cyflwyniad i ben drwy nodi ei fod yn ddarlun cadarnhaol yn gyffredinol yng ngoleuni'r pandemig a bod yr Ymddiriedolaeth eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion.

Rhoddodd RBW grynodeb a throsolwg o'r ymatebion rheoli i bob un o'r argymhellion archwilio a chynghorodd HB ynghylch y trefniadau goruchwylio ar gyfer gweithredu'r argymhellion.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Y rhesymau dros y gydymffurfiaeth is na'r targed o ran arfarniadau a hyfforddiant staff, gan nodi'r llif uchel o staff ac arweinwyr newydd yn ystod y pandemig. Nododd TC fod y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas ag arfarniadau a chynllunio swyddi meddygol er mwyn arddangos sefyllfa fwy cywir.
- Nododd TC ddatblygiad Cynllun Datblygu Risg i gryfhau'r trefniadau rheoli risg sydd ar waith,
- Y gwaith sydd ar y gweill i wella'r gwaith o reoli polisïau a gweithdrefnau gan Uned Fusnes y Bwrdd, a'r gwaith gwella a gynlluniwyd mewn perthynas â'r Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd. Cytunodd HB i drafod y gweithgor traws-sefydliadol ymhellach gyda SW y tu allan i'r cyfarfod.

Diolchodd VW i Archwilio Cymru am ei waith, a nododd feysydd cynnydd y Sefydliad, a chafodd **sicrwydd** ynghylch yr ymateb rheoli a'r cynllun i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad *Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru - Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd* gan Archwilio Cymru.

QSIC 4.4/2022.07.20	**Rheoli Risgiau**

Wrth gyflwyno'r Gofrestr Risgiau Strategol, amlygodd RBW yr arolwg o'r blaenoriaethau strategol ar ôl y pandemig, ac ystyriaeth y Bwrdd o barodrwydd y Sefydliad i dderbyn risg yn erbyn y blaenoriaethau strategol.

Fel Swyddogion Risgiau Strategol, rhoddodd TC a MK drosolwg o Risgiau Strategol 1 a 2 yn y drefn honno.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Yr hyder i gyflawni yn erbyn y Risgiau Strategol a chymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig,
- Rheoli'r risg i wasanaethau drwy gynnal ymarferion edrych am yn ôl yn ystod y pandemig. Cadarnhaodd MG fod y Tîm Cynllunio ar gyfer

WEDI'I GADARNHAU

Argyfyngau yn casglu'r gwersi a ddysgwyd, ac y byddai'n adolygu'r gwaith a gynlluniwyd i ddosbarthu'r hyn a ddysgwyd ledled y Sefydliad ac yn ceisio sicrwydd ynghylch y camau a gymerir yn sgil yr ymarfer dysgu.

- Croesawodd MG gynnig SG i gynorthwyo i annog y gwaith o ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda staff clinigol, yn sgil y diffyg presennol o fewn y gweithlu clinigol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch effeithiolrwydd y gwaith o reoli risg mewn perthynas â chylch gorchwyl y Pwyllgor.

QSIC 4.3/2022.07.20	**Egwyl**
QSIC 4.2/2022.07.20	**Gweithio i Wella**
QSIC 4.2a/2022.07.20	**Yr Adroddiad Gweithio i Wella (Chwarter 1, 2022-23, gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol)**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyflwynodd FT ran Dangosfwrdd Ansawdd y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad, gan amlygu'r gwaith gyda chydweithwyr i wella'r Dangosfwrdd Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol a Dim Digwyddiadau Annisgwyl a Chwynion, a'r bwriad i gynnwys cwynion anffurfiol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheolaeth effeithiol Gweithio i Wella.

QSIC 4.2b/2022.07.20	**Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2021-22**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol, amlygodd FT y perfformiad llawer gwell o ran cydnabod cwynion ac ymateb iddynt, a'r hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu sydd wedi arwain at gyfraddau adrodd gwell.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2021-22 a diolchodd i FT am ei harweinyddiaeth yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf.

QSIC 4.5/2022.07.20	**Adroddiad Rhybuddion Chwarter 1 2022-23**

Cyflwynodd FT yr adroddiad drwy amlygu'r un rhybudd sy'n berthnasol i'r Sefydliad. Nododd FT fwriad Llywodraeth Cymru i greu modiwl i ddosbarthu rhybuddion, a fyddai o gymorth i symleiddio proses fewnol y Sefydliad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chafodd **sicrwydd** bod system rheoli effeithiol i ddosbarthu, monitro a chadw cofnodion ar gyfer y rhybuddion / hysbysiadau diogelwch a ddaw i law ar waith a chroesawodd ddiweddariad yn y dyfodol ar y datblygiad newydd.

QSIC 4.6/2022.07.20	**Diweddariad ar Weithredu System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru**

WEDI GI DARLU

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn diweddariad mewn e-bost ar weithrediad y System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru.
Cam Gweithredu: SS

QSIC 4.7/2022.07.20	**Cynllunio ar gyfer y Gaeaf (Diogelu Iechyd)**

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ar y Cynllun Diogelu Iechyd ar gyfer y Gaeaf gan MK, a ganolbwyntiodd ar y canlynol:

- Y fframwaith ymateb i COVID – 'Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: Covid-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig' Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyniad y cynnig ar gyfer profion COVID i achos busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer gwyliadwraeth integredig o heintiau respiriadol, i gynnwys gwyliadwraeth sentinel cymunedol integredig ar gyfer heintiau respiriadol gan gynnwys COVID-19, y ffliw a'r feirws syncytiol anadlol.
- Arweiniodd ICC y diwygiad o'r Cynllun Rheoli Achosion Cenedlaethol, i gydnabod y gwersi allweddol a ddysgwyd yn ystod yr ymateb i COVID. Mae disgwyl i arolwg llawn o'r cynllun gael ei gynnal ym mis Mehefin 2023.
- Roedd y rhaglen frechu yn erbyn clefydau ataliadwy yn parhau i gefnogi integreiddio'r rhaglenni COVID-19 a'r ffliw yn un rhaglen yn y gaeaf ar gyfer clefydau respiriadol.
- Roedd y Tîm Polisi o fewn Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd yn gwneud gwaith i nodi unrhyw bwyntiau allweddol i'w dysgu o'r ymateb i'r pandemig a'r gwaith adfer yn ei sgil i hysbysu'r gwaith o gynllunio'r system iechyd a gofal yn y dyfodol a chefnogi gwytnwch yn ystod y gaeaf. Byddai'r allbwn yn gyflwyniad / adroddiad cryno sy'n cynorthwyo i rannu'r hyn a ddysgwyd o bob rhan o Gymru, a byddai'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd yr haf.

Holodd SG ynghylch y ffordd orau i reoli COVID mewn ffordd integredig er mwyn gwneud y mwyaf o'r dull gweithredu ar gyflyrau anadlol yn gyffredinol, a gofynnodd am fwy o wybodaeth am y gwaith o weithredu'r rhaglenni yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Nododd MK fod dull gweithredu integredig wedi'i gynllunio, lle y byddai un prawf swab yn profi am amrywiaeth o glefydau anadlol. Cyfeiriodd at yr oruchwyliaeth sentinel a gwaith y pedair gwlad a chytunodd i drafod hyn ymhellach gyda SG y tu allan i'r cyfarfod.

Diolchodd y Pwyllgor i MK am y diweddariad llafar.

QSIC 4.8/2022.07.20	**Yr Ymgyrch Brechlyn Mewnol rhag y Ffliw 2022-23**

Rhoddodd RBW ddiweddariad llafar ar ymgyrch brechlyn rhag y ffliw y Sefydliad ar gyfer 2022-23, gan nodi:

WEDI'I GADARNHAU

- Roedd rhai elfennau o'r rhagdybiaethau cynllunio wedi'u cynnwys yn y cynllun drafft a gyflwynwyd i'r Tîm Gweithredol oherwydd rhai elfennau anhysbys ar y lefel cynllunio cenedlaethol,
- Amlinellodd rhifyn diweddar o Gylchlythyr Iechyd Cymru ddisgwyliad ynghylch cyd-frechlyn Ffliw a Covid - byddai angen trafod y dulliau cyflenwi. Byddai'r cyflenwad yn debygol o fod drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, rhai adrannau iechyd galwedigaethol Byrddau Iechyd a chyflenwad mewnol gan gyfoedion,
- Roedd rhwystrau a phroblemau o ran hyder mewn data yn sgil y systemau adrodd niferus sydd ar waith ar draws system y GIG yr oedd IB wedi'u hamlygu i Ofal Iechyd Digidol Cymru.

Diolchodd y Pwyllgor i RBW am y diweddariad ar lafar, a **gofynnodd** i'r diweddariad ar gynllunio ar gyfer y ffliw 2022/23 gael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor wedi iddo gael ei gadarnhau.
Camau gweithredu: RBW

QSIC 4.9/2022.07.20	Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol

Cyflwynodd MK yr adroddiad ar Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.

Gofynnodd SW am wybodaeth ychwanegol am fuddiannau sefydlu Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol. Rhoddodd MK drosolwg o'r strwythur, gan nodi ei fod yn sicrhau bod adnodd pwrpasol ar gael i gyflawni'r rôl. Cynigiodd MK ac RBW i drafod trefn y Swyddfa gyda SW ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

Cynigiodd aelodau o'r pwyllgor eu cefnogaeth i'r Swyddfa newydd, gan nodi y byddai'n rhoi cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, yn hwyluso cronfa well o wybodaeth ac yn darparu fforwm ar gyfer hyfforddi mewn byd amlddisgyblaeth.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a chafodd **sicrwydd** ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r trosolwg o swyddogaethau Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.

QSIC 4.10/2022.07.20	Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 1 2022-23

Cyflwynodd CO yr adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1, 2022/23.

Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau i'r gydymffurfiaeth hyfforddiant statudol a gorfodol Iechyd a Diogelwch a nododd y gwaith i wella cydymffurfiaeth â rheoliadau dŵr ar draws adeiladau'r Sefydliad.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y mesurau priodol ar waith i fonitro'r gydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella.

WEDI'I GADARNHAU

QSIC 5/2022.07.20	**Eitemau i'w Cymeradwyo**
QSIC 5.1/2022.07.20	**Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod**

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod;
- **Cymeradwyo**'r penderfyniad i gau dau gam gweithredu ar y cofnod o gamau gweithredu;
- **Nodi** nad oedd unrhyw faterion yn codi.

QSIC 5.2/2022.07.20	**Polisïau i'w Cymeradwyo**
QSIC 5.2.1/2022.07.20	**Polisi Iechyd a Diogelwch**

Ystyriodd y Pwyllgor y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig a'i **gymeradwyo**.

QSIC 5.2.2/2022.07.20	**Polisi a Gweithdrefn Rheoli Hawliadau**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Hawliadau.

Nododd y Pwyllgor y byddai rheoli pryderon yn cael ei adolygu fel rhan o'r gweithgor traws-sefydliadol y mae HB yn bwriadu ei drefnu i adolygu'r amrywiaeth o Asesiadau Effaith a ddefnyddir.

QSIC 5.2.3/2022.07.20	**Y Weithdrefn Archwilio Ansawdd a Chlinigol**

Cymeradwyodd y Pwyllgor y weithdrefn Archwilio Ansawdd a Chlinigol

QSIC 5.3/2022.07.20	**Archwiliad Ansawdd a Chlinigol**

Cyflwynodd JT yr adroddiad, gan amlygu'r ymgysylltiad gwell ar draws y sefydliad i nodi archwiliadau ansawdd a chlinigol sy'n cael eu cynnal, yr ystyriaeth o'r aliniad â'r Archwiliad Mewnol a'r ffocws ar welliannau i'r fenter.

Cymeradwyodd aelodau'r pwyllgor JT am y gwaith o wella'r Archwiliad Ansawdd a Chlinigol.

Cytunodd RBW a MK i ystyried cysoni'r cynllun archwilio ag amcanion y Strategaeth Hirdymor neu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn eu cyfarfod nesaf ar y cyd.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Gymryd **sicrwydd** ynghylch cynnydd y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2021-22 a
- **Cymeradwyo'r** Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2022-23

QSIC 6/2022.07.20	**Eitemau i'w Nodi**
QSIC 6.1/2022.07.20	**Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2022/23**

Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

WEDI'I GADARNHAU

QSIC 6.2/2022.07.20	**Cylch Gorchwyl y Grŵp**
Nododd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'r Grŵp Diogelu yn y drefn honno.	
QSIC 7.6/2022.05.18	**Adborth y Pwyllgor**
Trafododd aelodau'r Pwyllgor y posibilrwydd o drefnu cyfarfodydd Pwyllgor crwydrol ac wyneb yn wyneb. **Nododd** y Pwyllgor y byddai adborth ychwanegol ar y cyfarfod yn cael ei geisio drwy e-byst. **Nododd** y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 19 Hydref 2022.	
Daeth y sesiwn agored i ben am 13:10	

WEDI'I GADARNHAU